# Safonau Siarter Teithio Llesol Cymru



GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

TRAFNIDIAETH CYMRU TRANSPORT FOR WALES

**Mae Safonau Siarter Teithio Llesol** yn rhoi fframwaith hyblyg i sefydliadau yng Nghymru i hyrwyddo teithio iach a charbon isel. Trwy gofrestru gyda'r Safonau, gall cyflogwyr wella lles meddyliol eu staff, lleihau absenoldeb oherwydd salwch a lleihau allyriadau carbon; tra bo'r gweithwyr yn elwa o weithgarwch corfforol cynyddol, lefelau straen îs a iechyd gwell yn gyffredinol. Mae system sy'n seiliedig ar bwyntiau yn cynnwys thri lefel cyflawniad yn cydnabod eich cynnydd. Bydd gennych ryddid i ddewis gwahanol gamau gweithredu ar draws themâu, lefelau a'ch swyddfeydd.

**Helpu Cymru i symud yn well, gyda'n gilydd—cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth ac i gofrestru heddiw.**

## Cerdded a beicio





### 1 pwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Hyrwyddo sesiynau hyfforddi a chynnal a chadw beiciau sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau eraill
- Darparu cynllun Beicio i'r Gwaith
- Darparu lle parcio beiciau
- Darparu ategolion i annog cerdded a beicio
- Trefnu sesiynau Dr Bike (cynnal a chadw beiciau) am ddim i staff o leiaf unwaith y flwyddyn
- Defnyddio dull 'gwisg llesol ar gyfer teithio llesol' neu 'Gwadnau Llesol'

### 2 bwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Cynnal cynllun beiciau cronfa i staff
- Cyflawni achrediad Cyflogwr Cyfeillgar i Feiciau lefel Efydd neu Arian
- Darparu parcio beiciau diogel, dan dô
- Darparu cawodydd i staff
- Darparu aelodaeth am ddim neu am bris gostyngol i staff i gynlluniau llogi beiciau cyhoeddus (lle bo modd)
- Darparu cynllun Beicio i'r Gwaith gyda therfyn o o leiaf £2,000, ar gael mewn un neu fwy o ffenestri prynu

### 3 phwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Cyflawni Achrediad Safon Aur Cyflogwr Cyfeillgar i Feiciau
- Darparu raciau sychu dillad
- Darparu loceri i staff sy'n cerdded neu'n beicio
- Darparu cyfleuster Parcio a Beicio i staff
- Darparu'r cynllun Beicio i'r Gwaith i staff gyda therfyn o o leiaf £2,000, ar gael drwy gydol y flwyddyn
- Gweithio gyda darparwr llogi beiciau cyhoeddus (lle bo ar gael) i leoli un neu fwy o orsafoedd llogi ar eich safle

## Trafnidiaeth gyhoeddus

### 1 pwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Cofrestru ar gyfer a hyrwyddo gostyngiadau trafnidiaeth gyhoeddus presennol sydd ar gael i fusnesau yn eich ardal

### 2 bwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Cynnig benthyciadau tocynnau tymor trafnidiaeth gyhoeddus i staff
- Gweithio gydag un neu fwy o ddarparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i gytuno ar ostyngiadau neu gynigion pwrpasol

### 3 phwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Darparu sgriniau gwybodaeth amserlen trafnidiaeth gyhoeddus byw e.e. mewn mannau mynediad
- Darparu gostyngiadau neu gynigion trafnidiaeth gyhoeddus gyda phob darparwr lleol mawr
- Ymrwymo i leoli gweithleoedd newydd ger llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus
- Darparu cyfleuster Parcio a Theithio am ddim i staff

## Lleihau allyriadau

### 1 pwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Cael cynllun amser-gyfyngedig ar waith i ddisodli pob cerbyd fflyd anarbenigol â cherbydau allyriadau sero
- Cael cynllun amser-gyfyngedig ar waith ar gyfer gwefrwyr cerbydau trydan ym mhob safle(oedd) lle bo angen yn seiliedig ar yr angen cyfredol a'r angen a ragwelir.

### 2 bwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Darparu cynllun prynu neu ostyngiadau ar gerbydau trydan (EVs) i staff
- Darparu cerbydau cronfa neu glwb ceir di-allyriadau ar gyfer teithio busnes
- Nodi bod rhaid defnyddio cerbydau di-allyriadau mewn unrhyw gontractau tacsi
- Cael gwefrwyr cerbydau trydan ar gael ym mhob safle(oedd) lle bo angen yn seiliedig ar yr angen cyfredol a'r angen a ragwelir.

### 3 phwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Cynnig lleoedd parcio wedi'u diogelu i staff sy'n rhannu ceir
- Lleihau cymhareb y lleoedd parcio ceir i staff cyfwerth ag amser llawn o'i gymharu â lefelau sylfaenol
- Gofyn am ddefnyddio cerbydau cronfa neu glwb ceir ar gyfer teithio busnes, lle mae gan y rhain allyriadau llai na char y gweithiwr ei hun
- Mae pob cerbyd fflyd nad yw'n arbenigol yn ddi-allyriadau
- Cynnig hyfforddiant i staff sy'n gyrru cerbydau fflyd neu fflyd lwyd, mewn amddiffyn defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed

## Cyfathrebu ac ymgysylltu

### 1 pwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Darparu cyfarwyddiadau teithio clir i safleoedd sydd ar gael yn gyhoeddus ar eich gwefan, gyda dewisiadau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus wedi’u rhestru yn gyntaf.
- Darparu gwybodaeth glir a chyfredol i staff ar gyfleusterau, gwasanaethau a gostyngiadau sydd ar gael iddynt i deithio’n gynaliadwy
- Defnyddio negeseuon cyfathrebu yn y pecyn(au) cymorth a argymhellir drwy gydol y flwyddyn
- Cymryd rhan mewn o leiaf ddau ymgyrch cenedlaethol sy’n gysylltiedig â theithio cynaliadwy bob blwyddyn (e.e. Wythnos Beicio, Mis Cerdded, Diwrnod Aer Glân)

### 2 bwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr teithio cynaliadwy staff
- Gwrando ac ymateb i farn staff ar deithio cynaliadwy, er enghraifft drwy gynnal arolwg rheolaidd (o leiaf yn flynyddol) neu sefydlu grŵp staff i gasglu adborth
- Darparu map o’ch prif safle(oedd) yn dangos llwybrau cerddwyr perthnasol, cyfleusterau beicio (gan gynnwys storfa a chawodydd a llwybrau a argymhellir), ac arosfannau a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, sydd ar gael ar eich gwefan.

### 3 phwynt am bob gweithred a gyflawnwyd

- Defnyddio fframwaith gwyddor ymddygiadol cydnabyddedig i ddatblygu negeseuon cyfathrebu ac ymyriadau wedi’u teilwra i gefnogi eich staff a/neu ymwelwyr i deithio’n gynaliadwy
- Asesu ac olrhain dulliau teithio staff mewn ffordd gynrychioliadol ac ailadroddadwy, er enghraifft drwy arolwg staff gorfodol; cofnodi yng nghofnod y staff; neu arolwg safle sy’n arsylwi ymddygiad teithio

## Polisi, strategaeth a diwylliant corfforaethol



### 1 pwynt – am bob gweithred a gyflawnwyd

- Trefnu cystadlaethau a chymhellion i annog teithio iach
- Annog a chefnogi gweithio ystwyth a hyblyg lle bo hynny ar gael i staff
- Wrth gynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb, dewis lleoliad sy’n hawdd ei gyrraedd trwy ddulliau cynaliadwy; a phan fyddwch yn hysbysebu’r digwyddiad, darparu cyfarwyddiadau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn gyntaf.
- Cynnwys ymrwymiad eich sefydliad i gefnogi teithio cynaliadwy, a’ch ymrwymiad i safonau’r Siarter Teithio Iach, mewn hysbysebion swyddi
- Codi ymwybyddiaeth o gostau teithio y gall staff eu hawlio ar gyfer beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a rhannu ceir
- Cyflwyno astudiaeth achos o gamau rydych chi wedi’u cymryd i gefnogi teithio iach a chynaliadwy yn eich gweithle

### 2 bwynt – am bob gweithred a gyflawnwyd

- Datblygu cynllun teithio cyffredinol ar gyfer eich sefydliad
- Nodi uwch arweinydd enwol (Swyddog Gweithredol/Bwrdd neu lefel gyfwerth) ar gyfer teithio cynaliadwy
- Gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer newid dulliau teithio a monitro cynnydd yn erbyn y rhain
- Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus, awdurdodau lleol a’r pwyllgorau cydweithredol corfforaethol (CJC) yn eich rhanbarth(au) i roi mewnbwn ar rwydweithiau trafnidiaeth

### 3 phwynt – am bob gweithred a gyflawnwyd

- Cytuno ar gyllideb gorfforaethol gylchol ar gyfer teithio cynaliadwy
- Galluogi staff i ddefnyddio desg boeth mewn lleoliadau sy’n agosach at eu cartrefi, e.e. swyddfeydd lleol, canolfannau gweithio o bell
- Datblygu a gweithredu cynlluniau teithio cynaliadwy ar gyfer pob safle mawr
- Cyflwyno, yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu â staff, bolisi treuliau gorfodol sy’n ymgorffori’r hierarchaeth teithio cynaliadwy y mae’n rhaid ei dilyn i hawlio treuliau teithio busnes
- Rhoi cynllunio teithio personol i bob aelod o staff, er enghraifft yn ystod y cyfnod ymsefydlu
- Cynnwys gofyniad i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy (neu weithredu polisi teithio cynaliadwy) mewn manylebau a fframweithiau caffael
- Cefnogi a mentora un neu fwy o sefydliadau sy’n ceisio cyflawni camau gweithredu Lefel 1 neu 2